

Grant Darparwyr Gofal Plant

Grant Darparwyr Gofal Plant– Ffurflen Gais

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio'r Grant Darparwyr Gofal Plant i helpu darparwyr gofal plant gyda chanlyniadau economaidd y coronafeirws (Covid-19).

Mae'r grant yn cyd-fynd â mesurau cymorth eraill y Llywodraeth (fel y Cynllun Cadw Swyddi i roi cyflogeion ar 'ffyrlo') ar gyfer pobl a busnesau.

Nid ydych chi'n gymwys i gael y grant hwn os ydych chi wedi derbyn neu os ydych chi wedi cyflwyno cais llwyddiannus am gymorth gan:

- Y grant ardrethi busnes gan eich Awdurdod Lleol
- Y Gronfa Cadernid Economaidd ar gyfer busnesau bach a chanolig a microfusnesau
- Y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig
- Grant Cychwyn Busnes Llywodraeth Cymru
- Cronfa Cadernid y Trydydd Sector

Yn ogystal â'r cynlluniau uchod, ni fyddwch yn gymwys os ydych chi wedi cael cyllid dan gynllun grant Mudiad Meithrin gan fod yr arian hwn yn dod o Gronfa Cadernid y Trydydd Sector.

Nid yw'r busnes wedi derbyn cyllid drwy'r cynlluniau grant uchod ac nid yw wedi cyflwyno cais llwyddiannus i'r cynlluniau grant uchod - ydy hyn yn wir	Ydy / Nac ydy
Mae'r busnes yn fusnes gofal plant	Ydy / Nac ydy
Mae'r busnes wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru	Ydy / Nac ydy
Mae'r busnes yn gweithredu yng Nghymru ers 1 Mawrth 2020 neu cyn hynny ac mae'n parhau neu'n bwriadu parhau i weithredu yng Nghymru	Ydy / Nac ydy
Mae incwm net y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin 2020 wedi disgyn o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019 oherwydd COVID-19 neu mae eich busnes wedi dechrau gweithredu ar 2 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny ac roeddech chi wedi gwneud colled net yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin 2020	Ydy / Nac ydy
Mae'r busnes ar agor neu mae'n bwriadu ailagor yn llawn ar 14 Medi 2020 neu cyn hynny neu, os yw'r busnes ar eiddo ysgol, bydd yn ailagor cyn gynted ag y bydd yr ysgol yn caniatáu hynny	Ydy / Nac ydy
Mae'r busnes yn gwmni cyfyngedig drwy warant, yn gwmni cyfyngedig preifat, yn Gwmni Buddiannau Cymunedol neu'n Sefydliad Corfforedig Elusennol neu bydd yn dod yn un o'r rhain; Neu, fel arall, mae'r busnes yn warchodwr plant ac mae eisoes wedi cofrestru fel unig fasnachwr gyda CThEM	Ydy / Nac ydy
Os ydych chi'n cyflogi staff, mae'r busnes yn bwriadu parhau i gyflogi staff am 12 mis	Ydy / Nac ydy / Amherthnasol
Mae hwn yn gais cyntaf gan y busnes i'r cynllun hwn	Ydy / Nac ydy
Os yw'n berthnasol, mae datganiadau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws wedi cael eu diweddarau a bydd copïau'n cael eu darparu gyda'r cais	Ydy / Nac ydy / Amherthnasol

Os nad ydych chi wedi dewis 'ydy' ar gyfer yr holl gwestiynau uchod, nid ydych chi'n gymwys ar gyfer y cynllun. Sicrhewch fod yr holl incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â busnes yn cael eu hamlygu'n glir ar gyfriflenni banc. Ceir rhagor o fanylion yn y ddogfen arweiniad.

ADRAN 1 – Eich Manylion Personol

Teitl		Enw cyntaf		Enw olaf			
Cyfeiriad							
Perthynas i'r busnes							
Rhif ffôn cyswllt				Cyfeiriad e-bost			
Oed	16-24	25-49	50-64	65+	Mae'n well gen i beidio â dweud		
Ticiwch							

Ydych chi'n ystyried eich hun yn	Menyw		Dyn		Mae'n well gen i beidio â dweud
Ydych chi'n siarad Cymraeg	Ydw		Nac ydw		Mae'n well gen i beidio â dweud

ADRAN 2 – Gwybodaeth am eich busnes

Enw'r busnes	Math o fusnes gofal plant
Stryd	
Tref / Dinas	
Awdurdod Lleol	
Cod post	
Rhif cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru	

Cyfeirnod Trethdalwr Unigryw CThEM neu gyfeirnod TWE (os yw'n berthnasol)	Trosiant blynyddol rhagamcanol 2020/2021
Trosiant blynyddol 2019/2020	Nifer y Lleoedd Gofal Plant (yn unol â rhif cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru)
Nifer y cyflogeion	Dyddiad dechrau masnachu
Amlinellwch unrhyw gyllid rydych chi wedi'i gael drwy'r Cynnig Gofal Plant, Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen neu Gynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 30 Mehefin 2020, gan gynnwys unrhyw ôl-daliadau a fydd yn cael eu talu ar ôl mis Mehefin: Rhowch fanylion pa gynllun(iau), dyddiadau derbyn y cyllid a faint a gawsoch gan bob cynllun:	
Eglurwch sut byddai peidio â chael y grant yn effeithio ar allu eich busnes i fasnachu:	

Datganiad am Gymorth De Minimis a gafwyd

Ydych chi wedi derbyn unrhyw Gymorth De Minimis yn ystod y 3 blynedd ariannol diwethaf (hy y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol):

Y corff a oedd yn rhoi'r cymorth	Swm £	Dyddiad

ADRAN 3 – Effaith Covid-19 ar eich busnes

Ticiwch y datganiad sy'n berthnasol i'ch busnes chi:

- mae fy musnes wedi parhau i fasnachu fel arfer ond mae'r incwm wedi disgyn
- mae fy musnes yn masnachu'n rhannol
- mae fy musnes wedi rhoi'r gorau i weithredu am y tro

Ydy eich incwm net dros y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin 2020 wedi disgyn o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019 o ganlyniad i Covid-19? (bydd angen tystiolaeth o hyn drwy gyflwyno cyfriflenni banc y busnes am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin ar gyfer 2019 a 2020). Rhaid i chi gynnwys **pob** ffynhonnell o incwm busnes.

<input type="checkbox"/> Ydy	Incwm 1/4/2019-30/6/2019	£.....
	Incwm 1/4/2020-30/6/2020	£.....
	Gwariant 1/4/2019-30/6/2019	£.....
	Gwariant 01/04/2020-30/6/2020	£.....

Nac ydy

NEU

Roedd y busnes wedi dechrau masnachu ar 2 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny ac mae wedi gwneud colled net o £..... dros y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 30 Mehefin 2020

Gwybodaeth ychwanegol am yr effaith ar eich busnes

ADRAN 4 – Manylion banc eich busnes

(Cofiwch gynnwys cyfriflen banc y busnes fel tystiolaeth)

Enw'r Banc	Enw'r Cyfrif
-------------------	---------------------

Rhif y Cyfrif	Cod Didoli

ADRAN 5 - Datganiadau

- Rwy'n cadarnhau bod yr wybodaeth rwyf wedi'i rhoi yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth;
- Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall Dogfen Canllawiau'r Grant Darparwyr Gofal Plant.
- Rwy'n cadarnhau bod fy musnes yn gweithredu yng Nghymru
Rwy'n cadarnhau y bydd fy musnes yn cyflawni rhwymedigaethau'r cynllun fel sydd wedi cael eu hamlinellu ar y ffurflen gais a'r canllawiau
- Rwy'n cydnabod y bydd fy awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru yn cynnal unrhyw archwiliadau busnes priodol sydd eu hangen i asesu'r cais ac yn gwirio natur ac effaith y cyllid yn y dyfodol a sut bydd yn cael ei ddefnyddio.
- Rwy'n cadarnhau y bydd fy musnes mewn perygl o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 heb y grant.
- Os yw'n berthnasol, rwy'n cadarnhau bod datganiadau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws wedi cael eu diweddarau a bod copïau wedi cael eu cyflwyno gyda'r cais
- Rwy'n cadarnhau nad yw'r busnes wedi derbyn cyllid gan, nac wedi cyflwyno cais llwyddiannus i'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig, y Gronfa Cadernid Economaidd, y Grant Ardrethi Busnes, Grant Cychwyn Busnes Llywodraeth Cymru, Cronfa Cadernid y Trydydd Sector (CGGC) na chynllun grant Mudiad Meithrin.
- Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darparu'r holl dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi fy nghais ar gyfer y Grant Darparwyr Gofal Plant.
- Rwy'n cadarnhau y byddaf yn cofrestru ar gyfer cymorth Busnes Cymru os bydd fy nghais am y Grant Darparwyr Gofal Plant yn llwyddiannus.
- Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall Datganiad Preifatrwydddy Grant Darparwyr Gofal Plant: <https://llyw.cymru/grant-darparwyr-gofal-plant-hysbysiad-preifatrwydd>

Wrth gyflwyno eich cais, cofiwch atodi'r holl dystiolaeth angenrheidiol, gan gynnwys prawf o'ch manylion adnabod, prawf o gyfeiriad y busnes a chyfriflenni banc. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y ddogfen ganllawiau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i adennill arian gan unigolion a busnesau os rhoddwyd gwybodaeth ffug neu os gwelir nad yw'r busnes yn gymwys ar gyfer y cynllun ar ôl cynnal rhagor o archwiliadau. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio unrhyw hawliau twyllodrus ar gyfer ymchwiliad troseddol.